Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# GRANT BUSNES CRONFA BALCHDER BRO CONWY

## Meini Prawf a Chanllawiau

***This document is also available in English.***

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynnwys

Adran A - Ffactorau Allweddol
- Cyflwyniad
- Ffactorau Cymhwysedd 4
- Sectorau nad ydynt yn Gymwys 4
- Prosiectau Cymwys 4
- Prosiectau nad ydynt yn Gymwys 5
- Ffactorau Hanfodol i'w Nodi 5

Adran B – Proses Grantiau
- Gwneud cais 6
- Cymorth Gwladwriaethol / Rheoli Cymhorthdal 7
- Prosesu Ceisiadau 8
- Rhoi gwybod am y penderfyniad 8
- Hawlio 8
- Monitro ar ôl Dyfarniad 9
- Cyhoeddusrwydd 10

Gwybodaeth Ategol
- https://www.conwy.gov.uk/cy/Business/Regeneration/European-and-External-Funding/UK-Government-funding/Pride-in-Place-Impact-Fund.aspx
- Cronfa Effaith Balchder Bro: Cafodd Cronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU ei chyhoeddi y llynedd, a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, yn derbyn £1.5 miliwn mewn cyllid cyfalaf dros ddwy flynedd. Bydd y gronfa yn rhedeg tan fis Mawrth 2027, a chaiff prosiectau eu dewis a'u darparu fesul cam. Mae'r Gronfa Effaith yn ychwanegol at gyllid Rhaglen Balchder Bro a ddyfarnwyd i brosiectau yng nghymdogaeth Mostyn a Tudno yn Llandudno.
  Cefndir https://modgovpub-eng.secure.conwy.gov.Cabinet Report 27 Jan 2026 - Cronfa Effaith Balchder Bro

Manylion Cyswllt
Cymorth i Fusnesau Conwy
busnes@conwy.gov.uk
01492 574574

# ADRAN A - FFACTORAU ALLWEDDOL

## Cyflwyniad

Bydd Sir Conwy yn cael £1.5 miliwn o gyllid cyfalaf dros 2 flynedd (wedi'i rannu'n gyfartal ar draws 2025/26 a 2026/27) a chaiff ei reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Bydd Cronfa Effaith Balchder Bro yn darparu cyllid tymor byr ar gyfer gwelliannau uniongyrchol i sicrhau bod mannau a lleoedd a gaiff eu gwerthfawrogi gan gymunedau yn cael eu gwella.

Mae Amcan cyffredinol y Gronfa wedi'i ddylunio i gryfhau cymunedau, meithrin balchder a chreu sylfeini ar gyfer twf economaidd:

Mae cynllun grant Busnes Cronfa Balchder Bro wedi'i gysylltu'n benodol â'r thema ganlynol

| | |
|---|---|
| **Adfywio'r Stryd Fawr a Chanol y Dref** | **Creu lleoedd mwy deniadol a chroesawgar lle mae pobl yn ymgynnull er mwyn annog gweithgarwch economaidd.** Gwelliannau i flaen siopau, addasiadau sy'n golygu bod eiddo'n cael eu defnyddio eto, strydlun ac isadeiledd ar gyfer marchnadoedd rheolaidd. |

Ar hyn o bryd dim ond gan Fusnesau yn ardaloedd siopa craidd / canolfannau masnachol y trefi canlynol y gellir derbyn ceisiadau

- Llanfairfechan
- Penmaenmawr
- Conwy
- Cyffordd Llandudno
- Deganwy
- Llandudno a Craig y Don
- Rhos on Sea
- Bae Colwyn
- Hen Colwyn
- Llanrwst
- Abergele a Phensarn,
- Bae Kinmel a Towyn

Bydd grant Busnes Cronfa Balchder Bro yn galluogi darparu grantiau i fusnesau masnachol neu gymdeithasol lleol (pan fo gweithgarwch masnachol) sydd yn: -

- gobeithio sicrhau bod eiddo masnachol gwag yn cael eu defnyddio eto

ac/neu

- gobeithio cyflwyno technoleg carbon isel i'w heiddo busnes, yn benodol ynni solar, system wresogi carbon isel, mannau gwefru cerbydau trydan a goleuadau LED

Bydd angen i brosiectau trwy'r cynllun hwn allu dangos yr effaith ganlynol

| |
|---|
| Faint o le masnachol sydd wedi'i gwblhau neu ei wella<br><br>metrau sgwâr |

| |
|---|
| Nifer yr ôl-osodiadau gwyrdd i adeiladau a/neu gyfleusterau amhreswyl<br><br>Nifer yr adeiladau |

- ❖ Mae'r cynllun wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig (sy'n cyflogi hyd at 250 o bobl) gydag un ai trosiant o lai na €50 miliwn neu fantolen lai na €43 miliwn.
- ❖ Mae'r cynllun yn cynnig cyllid o HYD AT 70% ar wariant cyfalaf a/neu refeniw cymwys ar gyfer prosiectau, gyda dyfarniadau o £3,000 hyd at £25,000 yn cael eu cynnig.
- ❖ Mae'r cynllun grant hwn yn ddewisol a bydd yn cael ei weithredu ar sail y cyntaf i'r felin, yn dibynnu ar argaeledd arian a'r gallu i gwblhau'r prosiect o fewn y cyfnod penodol.
- ❖ Bydd pob cynnig cyllid yn amodol ar gymeradwyo ceisiadau gan Banel Adolygu Grantiau
- ❖ Yn dilyn cadarnhad o'r dyfarniad, bydd angen i bob cynnig fod wedi'i dderbyn a'r arian wedi'i dynnu erbyn mis Ionawr 2027 fan bellaf, pa un bynnag sydd gynharaf.
- ❖ Fel cronfa amser gyfyngedig, bydd yr holl gynigion grant (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) sydd heb eu tynnu yn unol â'r uchod yn dod i ben yn awtomatig.

## Ffactorau Cymhwysedd

Mae'r cynllun wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig (sy'n cyflogi hyd at 250 o bobl) gydag un ai trosiant o lai na €50 miliwn neu fantolen lai na €43 miliwn.

**Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cymorth buddsoddi, mae'n rhaid i fusnesau gael eu lleoli a'u gweithredu yn Sir Conwy, wedi bod yn masnachu dros 3 mis ac wedi cofrestru gyda CaThEF.**

Er mwyn cael ei ystyried, rhaid i'ch prosiect gyflawni un neu fwy o'r allbynnau a'r canlyniadau

## Sectorau nad ydynt yn Gymwys

- Darparwyr llety
- Glo/Dur
- Adeiladu llongau

- Cynhyrchu ffibrau synthetig
- Banciau
- Cwmnïau yswiriant
- Tai
- Addysg statudol
- Gwasanaethau Iechyd Statudol
- Datblygu Eiddo Masnachol a Phreswyl
- Pysgodfeydd/ dyframaeth/ amaethyddiaeth ac Atodiad 1 - cynhyrchu bwyd/ amnewidion llaeth/ gweithgareddau cysylltiedig ag allforio
- Gamblo, Tybaco, Cynhyrchu Arfau a Bwledi neu unrhyw sectorau sy'n arwain at effaith sylweddol ar yr amgylchedd neu sy'n foesegol neu'n foesol ddadleuol.

**<u>Prosiectau/Eitemau Cymwys</u>**

Prosiectau cyfalaf gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i)

- Cyfarpar cyfalaf
- Costau gosod / Llafur ar gyfer offer / gwaith datblygu
- Prosiectau lleihau carbon h.y. paneli solar / goleuadau ynni isel

**<u>Prosiectau/Eitemau nad ydynt yn Gymwys</u>**

Yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol)

- Gweithgareddau sydd eisoes wedi cychwyn (ni ellir prynu nac archebu eitemau nes bod cymeradwyaeth grant wedi'i rhoi)
- Prosiectau i fodloni gofynion statudol
- Adnewyddu h.y. disodli offer hen am rai newydd, uwchraddio cyfarpar a meddalwedd TG, Costau Cynnal a Chadw a / neu Gostau Rhedeg
- Prosiectau sy'n niweidiol i'r amgylchedd
- Prosiectau heb gydsyniadau statudol perthnasol (os yw'n berthnasol)
- Cerbydau ar y ffordd
- Eitemau nad ydynt yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y prosiect neu nad ydynt yn cyfrannu’n uniongyrchol ato
- Eitemau (ac eithrio peiriannau) na fyddent yn cael eu hystyried yn osodiadau e.e. dodrefn y gellir eu symud, eitemau addurniadol, llenni a/neu fleindiau a rhai mathau o loriau
- Prynu Tir a/neu Eiddo
- Costau gweithredu / busnes arferol – e.e. Costau staff, prynu stoc
- TAW adferadwy
- Caffael asedau o dan Bryniant Llogi, Cytundebau Credyd Estynedig neu Brydles

***Dylid nodi hefyd bod isafswm y gost ar gyfer eitemau unigol wedi'i osod ar £100.***

## Ffactorau Hanfodol i’w Nodi

Dyfynbrisiau

- Amcangyfrifon/dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer eitemau/ gwaith prosiect (2 ddyfynbris manwl ar gyfer eitemau/ gwaith sy’n costio hyd at £10,000, 3 dyfynbris manwl ar gyfer unrhyw eitem/ gwaith sy’n fwy na £10,000)
- Dylai'r dyfynbrisiau ddilyn yr un templed a, lle bo'n berthnasol, dylid eu rhannu'n rhannau i ddangos costau elfennau unigol o'r gwaith e.e. cost offer / llafur / costau gosod.
- Mae disgwyl i chi sicrhau’r gwerth gorau drwy ddefnyddio eich arferion caffael masnachol arferol megis cael dyfynbrisiau cystadleuol gan gyflenwyr. Dylech gynnwys copïau o’r dyfynbrisiau rydych wedi’u dewis gyda’ch cais i ddangos rhesymoldeb eich costau disgwyliedig.
- Byddwn yn ceisio sicrhau bod pob cyflenwr a ddefnyddir gan dderbynwyr grantiau yn gweithio'n gynaliadwy a, lle bo'n bosibl, (wedi'i gydbwyso â Gwerth am Arian) yn annog cyflenwadau lleol a'r effeithiau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â hynny.
- Disgwylir i unrhyw waith a gaiff ei gwblhau gael ei wneud gan grefftwr neu gwmni addas, sefydledig.
- Mae’n rhaid i’r holl waith proffesiynol gael ei wneud gan gontractwyr cymwys, gan gynnwys cwmnïau a ddefnyddir ar gyfer gosodiadau solar y byddem yn disgwyl iddynt fod wedi’u cofrestru a MCS a CCM.
- Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i gysylltu ag unrhyw un o’r busnesau sy’n cyflwyno dyfynbrisiau mewn cyswllt â’ch cais, os oes angen eglurhad.
- Ni chaniateir gwaith prosiect a gaiff ei wneud gan yr ymgeisydd ei hun neu unigolyn a gaiff ei gyflogi’n uniongyrchol gan yr ymgeisydd ac ni fydd gwaith o’r fath yn gymwys am gyllid.
- Mae’n rhaid i’r Cyngor gael gwybod am unrhyw gysylltiad personol, teuluol neu fusnes rhyngoch chi/eich asiant ac unrhyw gyflenwr / contractwr. Os ydych chi’n bwriadu defnyddio contractwr sydd â chysylltiad personol neu ariannol â chi neu eich busnes, mae’n rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn. Os oes cysylltiad ariannol, bydd gofyn i chi sicrhau nad yw’r costau sy’n cael eu codi gan y contractwr yn cynnwys maint yr elw ar ddeunyddiau a llafur.

*Pryniant Arian Parod*
Ni thelir unrhyw gyllid lle ymgymerwyd â thrafodion arian parod.

*Ôl-weithredu*
Ni thelir unrhyw gyllid ar unrhyw wariant ôl-weithredol.

# ADRAN B – PROSES GRANTIAU

## Gwneud Cais

*Cais Llawn*

1. Cyn cyflwyno cais, gofynnir i chi siarad ag aelod o dîm Cymorth i Fusnesau Conwy.

2. Darllenwch yr holl wybodaeth a chanllawiau a ddarperir yn ofalus, ac yn benodol nodwch a gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pob agwedd ar y ffurflen gais a'r canllawiau sy'n ymwneud â dyfarnu'r Grant Busnes Cronfa Balchder Bro.

3. Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein.

4. Lle gofynnir i chi roi sylwadau, cofiwch gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys yr adrannau i esbonio'r prosiect, ei fanteision, ei effaith a sut y bydd yn cyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau gofynnol. Dylai'r sylwadau egluro pam bod angen cyllid grant er mwyn i'r prosiect barhau.

5. Mae'n bwysig sicrhau bod eich ffurflen gais wedi'i llenwi'n iawn a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chynnwys ar adeg ei chyflwyno. Mae hyn yn cynnwys:

   - Cynllun Busnes diweddaraf
   - Cyfrifon blynyddol diweddaraf
     *Mewn rhai amgylchiadau efallai y gofynnir am wybodaeth ariannol mwy na blwyddyn.*
   - Os nad yw'r busnes wedi bod yn masnachu yn ddigon hir i gyfrifon fod ar gael, bydd angen o leiaf 3 mis o ddatganiadau banc i ddangos tystiolaeth o fasnachu
   - Datganiad Llif Arian ac Elw a Cholled Arfaethedig
   - Cadarnhad o gyllid cyfatebol
   - Cadarnhad o'r *Caniatâd Cynllunio a / neu'r Rheoliadau Adeiladu
     (Os yw'n berthnasol) gan gynnwys 'Newid Defnydd'.
   - Prawf o Berchnogaeth / prydles os yw'n berthnasol (mae a*ngen prydles gydag o leiaf 5 mlynedd fel sy'n safonol*)
   - Amcangyfrifon / dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer y prosiect
   - Holl Ofynion Cyfreithiol Statudol ar gyfer y Busnes (os yw'n berthnasol)
   - Cadarnhad cofrestru gyda Chyllid a Thollau EF
   - Tystiolaeth o gymeradwyaeth landlord (os yw'n berthnasol)

* mewn achosion lle mae caniatâd cynllunio yn y broses ond heb ei dderbyn eto, gellir ystyried ceisiadau ond byddai unrhyw gynnig cyllid yn amodol ar dderbyn y cymeradwyaethau / caniatâd perthnasol.

Os nad yw ar gael adeg y cynnig, bydd angen tystiolaeth o gyflwyno unrhyw gais cynllunio o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y cynnig cyllid. Gallai methu â gwneud hynny arwain at dynnu'r cynnig cyllid yn ôl

Yn amodol ar natur y prosiect, os na cheir y caniatâd perthnasol o fewn cyfnod yr ydym yn ei ystyried yn rhesymol i sicrhau y gellir cwblhau'r prosiect erbyn Ionawr 2027, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig cyllid yn ôl.

*Sylwer*

– Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth o ffynonellau eraill.

– Rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth ariannol megis trosiant, mewn perthynas â swm y cyllid y gofynnir amdano.

– Efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol i gefnogi ceisiadau.

- Os bydd unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, byddwn yn cysylltu â chi.

  Sylwch na ystyrir bod ceisiadau wedi'u cyflwyno'n llawn nes bydd yr holl ddogfennau / gwybodaeth gofynnol wedi dod i law.

- Gallai methu â chydymffurfio ohirio penderfyniad. Nodwch nad yw'r amserlen cymeradwyaeth yn cychwyn nes derbynnir yr holl ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol gan yr Awdurdod Lleol.

*Fe'ch atgoffir ar hyn o bryd i beidio ag ymgymryd ag unrhyw wariant ar y prosiect a ariennir gan grant nes bod penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud ar y cais a'ch bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o hyn.*

- **Ni thelir unrhyw gyllid ar wariant ôl-weithredol**
- **Ni thelir unrhyw gyllid lle ymgymerwyd â thrafodion arian parod**
-

**CYMORTH GWLADWRIAETHOL / RHEOLI CYMHORTHDAL**

Bydd y grantiau'n cael eu dyfarnu dan Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA)
Mae Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu cymorthdaliadau gwerth isel (hyd at £315,000)

Ni ellir rhoi Cymorth Ariannol Lleiaf ychwanegol i fuddiolwr sydd wedi cyrraedd eu trothwy Cymorth Ariannol Lleiaf yn barod.

Fel rhan o broses y cais, bydd gofyn i chi:

- Ddatgan eich dealltwriaeth bod y cyllid a gynigir yn gymhorthdal dan MFA
- Datgan na fydd y trothwy MFA a nodwyd yn adran 36(1) y Ddeddf yn cael ei ragori gan y fenter sy'n derbyn y cymorth arfaethedig

Wrth wneud eich datganiad, dylech ystyried yr holl gymhorthdal (gan gynnwys grantiau) a ddaeth i law drwy'r cynlluniau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol

De Minimis, 'Special Drawing Rights' (SDR), De Minimis y DU, 'Small Amounts of Financial Assistance' (SAFA, yr enw presennol), Small Amounts of Funding Exemption (SAFE) a 'Minimal Financial Assistance' (MFA).

Gallai enghreifftiau gynnwys grantiau cysylltiedig Ardrethi Annomestig, Cronfa Cadernid Economaidd, Grant Cychwyn, Cronfa Gweithwyr Llawrydd, Cronfa Awdurdod Lleol yn ôl Disgresiwn, Grant Cymorth i Fusnesau Conwy, UKSPF Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol

Mae mwy o ganllawiau ar reoli cymorthdaliadau ar gael yma Rheoli cymorthdaliadau | LLYW.CYMRU

## Prosesu Eich Cais

Ar ôl cael eich ffurflen gais lawn bydd y Cyngor yn: -

- Gwirio bod yr holl fanylion a ddarperir mewn trefn ac os na, yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth bellach sy'n ofynnol.
- Cynnal ymgynghoriad, a all gynnwys:
    - Geirda gan y banc
    - Chwiliad gydag asiantaeth gwirio credyd mewn perthynas â'ch busnes. *Bydd yr asiantaeth y cadw cofnod o'r ymchwiliad hwnnw, ac efallai'n rhannu'r wybodaeth gydag asiantaethau eraill.*
    - Gwneud ymholiadau mewn perthynas â chyfarwyddwyr cwmni gydag asiantaeth gwirio credyd.
    - Chwiliadau lleol e.e. Treth y Cyngor a / neu gyfraddau annomestig

- Cyfeirio'r cais at y Panel Grantiau ar gyfer gwneud penderfyniad. *Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar deilyngdod, ac yn unol â nodau ac amcanion y cynllun*
- *Sylwch fod y cyfnod prosesu ar gyfer ceisiadau yn amodol ar y ffenestr ceisiadau a threfnu cyfarfod panel. Caiff pob cais a gyflwynir yn llawn o fewn y ffenestr ceisiadau eu cyflwyno a'u hystyried yn yr un cyfarfod panel.*

## Rhoi gwybod am y penderfyniad

Cewch wybod ar ffurf e-bost beth fydd y penderfyniad. Os byddwch yn llwyddiannus fe'ch hysbysir o'r swm a gynigir ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â'r dyfarniad.

Wedi'i atodi i'r e-bost / llythyr bydd y contract '*Telerau ac Amodau*' y bydd yn rhaid i chi gadw ato. Rhaid *llofnodi a dychwelyd y ddogfen hon o fewn 14 diwrnod* er mwyn derbyn y cynnig cyllid.

Gallai methu â dychwelyd y Telerau ac Amodau wedi'u llofnodi arwain at dynnu'r cynnig cyllid yn ôl

## Hawlio

Mae ein holl gyllid ar sail talu

- h.y. rhaid i'r hawlydd wario'r arian yn gyntaf ac yna hawlio'r swm y cytunwyd arno yn ôl fel y nodir yn llythyr y cynnig grant.
- Rhaid i waith y prosiect fod wedi'i gwblhau h.y. eitemau wedi'u danfon a'u gosod, gwaith adeiladu wedi'i gwblhau

Gyda chytundeb ymlaen llaw a lle mae gan y prosiect elfennau ar wahân, efallai y byddwn yn ystyried hawliad dros dro - byddem fel arfer yn gwneud hyn mewn 1 / 2 rhandaliad yn dibynnu ar y prosiect a'i broffil gwariant.

- Enghraifft 1 - Gallai gosod paneli solar a pheiriannau cynhyrchu newydd fod yn ddwy elfen ar wahân a gellid gofyn am randaliadau
- Enghraifft 2 – ni fyddai prynu deunyddiau a chwblhau gwaith cysylltiedig yn cael eu hystyried yn elfennau ar wahân - ni ellir ystyried rhandaliadau

Yn dilyn cadarnhad o'r dyfarniad, bydd angen i bob cynnig fod wedi'i dderbyn a'r arian wedi'i dynnu erbyn mis Ionawr 2027 fan bellaf

Fel cronfa amser gyfyngedig, bydd yr holl gynigion grant (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) sydd heb eu tynnu yn unol â'r uchod yn dod i ben yn awtomatig.

Wrth gyflwyno hawliad, rhaid iddo gynnwys

- Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau, gan gynnwys y wybodaeth ofynnol a thystiolaeth ategol ar gyfer yr allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnwyd
- Pob cyfrif / anfoneb berthnasol *(rhaid i anfonebau beidio â chynnwys dyddiad sy'n bellach yn ôl na dyddiad y llythyr / contract cynnig wedi'i lofnodi a'i ddychwelyd).*
- Bydd hefyd angen copïau o gyfriflenni banc cyfatebol yn dangos y taliadau yn mynd allan o gyfrifon y cwmni.
- Ffotograffau lle y bo'n berthnasol
- Lle mae taliadau wedi'u gwneud gyda cherdyn credyd, bydd angen cyflwyno tystiolaeth bod y taliadau llawn wedi'u gwneud i'r cwmni cerdyn credyd.
- Tystiolaeth o rifau cyfresol ar gyfer unrhyw offer cyfalaf (os yn berthnasol)

Bydd y Cyngor yn bodloni ei hun bod y gweithgarwch y dyfarnwyd y cyllid ar ei gyfer (gwaith neu archebion a wnaed) wedi cael ei wneud yn unol â'r cynnig a wnaed o fewn y cais, ac unrhyw amodau sydd wedi'i atodi i'r gymeradwyaeth. Gellir gwneud hyn drwy archwiliad neu unrhyw ffordd arall a bennir gan y Cyngor. Pan fydd yr uchod i gyd wedi'i gwblhau, bydd y Cyngor yn rhyddhau'r cyllid i'ch Cyfrif Banc Busnes drwy daliad BACS.

Noder y gallai gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i daliadau gael eu prosesu a chyrraedd eich cyfrif.

## <u>Monitro ar ôl Dyfarniad</u>

Caiff yr allbynnau y cytunwyd arnynt eu monitro ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae'n ofynnol i fusnesau gymryd rhan a chwblhau unrhyw waith monitro a gwerthuso a wneir gan y cyngor neu gwmnïau sy'n gweithredu ar ran y cyngor.

Yn ystod y cyfnod cydymffurfio â'r cyllid 3 blynedd, gall y Cyngor, neu ei asiantau, gynnal adolygiadau a monitro ymhellach. Gall hyn gynnwys ymweld â'ch safle i gynnal archwiliad monitro o'r busnes ac asedau a ariennir gan Grant Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol.

Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus ddarparu tystiolaeth bod yr allbynnau a'r canlyniadau wedi'u cyflawni..

Ar brosiectau sydd wedi nodi creu swyddi fel canlyniad, bydd y Cyngor angen gweld tystiolaeth o'r ffactorau cyflogaeth.

Ar gyfer pob prosiect arall, rhaid i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth o sut mae dyfarniad Grant Busnes Cronfa Balchder Bro wedi effeithio ar y busnes.

**CYHOEDDUSRWYDD**

Bydd gan Gyngor Conwy a Llywodraeth y DU hawl i gyhoeddi manylion y grant a gynigiwyd/a dalwyd

i'r Derbynnydd Grant at ddibenion cyhoeddusrwydd os bydd angen.

Disgwylir y bydd unrhyw Dderbynnydd Grant yn cymryd rhan yn unrhyw ymgyrchoedd marchnata cysylltiedig â rhaglenni Cymorth Busnes Conwy a/neu Chronfa Effaith Balchder Bro os gofynnir iddynt wneud hynny.

Os ydych chi'n llwyddiannus yn eich cais am gefnogaeth gan Gymorth Busnes Conwy a Chronfa Effaith Balchder Bro, mae'n ofynnol i chi gydnabod y gefnogaeth ariannol hon. Cyfeiriwch at https://www.gov.uk/government/publications/pride-in-place-impact-fund/pride-in-place-impact-fund-prospectus.

## MANYLION CYSWLLT

| | |
|---|---|
| CONWY<br>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL<br>COUNTY BOROUGH COUNCIL | Cymorth Busnes Conwy<br>**busnes@conwy.gov.uk**<br>01492 574574 |